

## AGENDA

Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm

### Eitem 1 Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog

Cliciwch [yma](#) i weld y cwestiynau

### Eitem 2 Datganiad Busnes:

**Y Trefnydd**  
Cliciwch [yma](#) am y Datganiad Busnes Drafft

### Eitem 3 Cynnig Cyfansawdd *NDM1112* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1. Yn cymeradwyo:

Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (Apelau) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mehefin 2002; ac

2. Yn ystyried:

a) adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) (Apelau) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2002;

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd ar 11 Mehefin 2002;

c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd ar 26 Mehefin 2002.

Cliciwch [yma](#) i weld y Rheoliadau drafft

Cliciwch [yma](#) i weld adroddiad y Pwyllgor Deddfau

Cliciwch [yma](#) i weld yr Arfarniad Rheoliadol - Ar gael yn Saesneg yn unig

Cliciwch [yma](#) i weld y Memorandwm Cywiriadau

### 3. Yn cymeradwyo:

Gorchymyn Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mehefin 2002; ac

### 4. Yn ystyried:

adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft, Gorchymyn Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2002;

Cliciwch [yma](#) i weld y Rheoliadau drafft

Cliciwch [yma](#) i weld adroddiad y Pwyllgor Deddfau

### 5. Yn cymeradwyo:

Gorchymyn Rheoli Swm (Codau Ymarfer ar gyfer Safleoedd Adeiladu a Safleoedd Agored) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002; ac

### 6. Yn ystyried:

a) adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Gorchymyn Rheoli Swm (Codau Ymarfer ar gyfer Safleoedd Adeiladu a Safleoedd Agored) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Gorffennaf 2002;

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd ar 18 Mehefin 2002.

Cliciwch [yma](#) i weld y Rheoliadau drafft

Cliciwch [yma](#) i weld adroddiad y Pwyllgor Deddfau

Cliciwch [yma](#) i weld yr Arfarniad Rheoliadol - Ar gael yn Saesneg yn unig

### 7. Yn cymeradwyo:

Rheoliadau Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2002; ac

### 8. Yn ystyried:

a) adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Porthiant (Diwygio) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mehefin 2002;

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd ar 25 Mehefin 2002;

c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd ar 1 Gorffennaf 2002.

Cliciwch [yma](#) i weld y Rheoliadau drafft

Cliciwch [yma](#) i weld adroddiad y Pwyllgor Deddfau - Ar gael yn Saesneg yn unig

Cliciwch [yma](#) i weld yr Arfarniad Rheoliadol - Ar gael yn Saesneg yn unig

Cliciwch [yma](#) i weld y Memorandwm Cywiriadau

## **Eitem 4**

### **Cynnig Trefniadol**

*Bydd Y Trefnydd yn cynnig cynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn gerbron y cynnig heb ddyddiad trafod canlynol 1132 yn lle y cynnig a dynnwyd yn ol NDM1116 (Eitem 6):*

#### **NNDM1132 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried:

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau ar 2 Gorffennaf 2002.

2. Yn cymeradwyo:

a) gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002, Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau ar 2 Gorffennaf 2002, a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd ar 3 Gorffennaf 2002.

Cliciwch [yma](#) i weld y Rheoliadau drafft

Cliciwch [yma](#) i weld adroddiad y Pwyllgor Deddfau

Cliciwch [yma](#) i weld y Memorandwm Cywiriadau

Cliciwch [yma](#) i weld yr Arfarniad Rheoliadol - Ar gael yn Saesneg yn unig

***Cynigir bod eitemau 5 a 6 yn cael eu trafod gyda'i gilydd ond bod y cynigion yn cael eu cynnig a'r pleidleisio yn cael ei wneud ar wahân***

## Eitem 5

### **Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Dros Dro a Therfynol) (Cymru) 2002**

*NDM1113* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried egwyddor Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Dros Dro a Therfynol) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002.

*NDM1114*

- Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried:

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Dros Dro a Therfynol) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau ar 2 Gorffennaf 2002;

2. Yn cymeradwyo:

a) gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002;

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002;

c) y Memorandwm Cywiriadau, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau ar 2 Gorffennaf 2002.

Cliciwch [yma](#) i weld y Rheoliadau drafft

Cliciwch [yma](#) i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

Cliciwch [yma](#) i weld yr Arfarniad Rheoliadol - Ar gael yn Saesneg yn unig

Cliciwch [yma](#) i weld y Memorandwm Cywiriadau

## Eitem 6

### **Cymeradwyo Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) (Cymru) 2002**

*NDM1115* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002.

- Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol: TYNNWYD YN OL A RODDWDYD NNDM 1132 YN EILE

1. Yn ystyried:

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau ar 2 Gorffennaf 2002.

2. Yn cymeradwyo:

a) gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002; a'r

b) Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau ar 2 Gorffennaf 2002.

**Eitem 7**

**Cynnig i ddirprwyo'r swyddogaethau ar gyfer gweithredu'r Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop mewn perthynas â Datblygiadau Ewropeaidd ehangach i'r Prif Weinidog**

*NDM1117* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn neu o dan *The European Communities (Designation) (No 2) Order 2002* (OS 2002/1080) ac eithrio'r rhai na ellir yn ôl y gyfraith eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gellir gweld copi o *The European Communities (Designation) (No 2) Order 2002* ar y Rhyngrwyd drwy ddefnyddio'r cyswllt hwn:

<http://www.legislation.hmsso.gov.uk/si/si2002/20021080.htm> - Ar gael yn Saesneg yn unig

**Eitem 8**

**Cymeradwyo Cyllideb Swyddfa'r Llywydd ar gyfer 2003-04**

*NDM1120* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 19.00, yn mabwysiadu'r gyllideb ar gyfer Swyddfa'r Llywydd ar gyfer 2003-2004 a'r dyraniadau dangosol ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol fel y'u nodir yn y Tabl a elwir "Presiding Office Budget for 2003-04 and Indicative Budget for 2004-05 and 2005-06" a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Gorffennaf 2002.

Cliciwch yma i weld y "Presiding Office Budget for 2003-04 and Indicative Budget for 2004-05 and 2005-06" - Please note this document is not available in welsh and will not be available on the Internet or the Chamberweb.

## **Eitem 9**

### **Cynnig i nodi adolygiad polisi'r Pwyllgor Diwylliant ar yr Iaith Gymraeg**

*NDM1118* - Bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, "Ein Hiaith: Ei Dyfodol", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Gorffennaf 2002.

Cliciwch [yma](#) i weld y "Ein Hiaith: Ei Dyfodol"

## **Eitem 10**

### **Dadl ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Mesur Cyfathrebu**

*NDM1119* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn cymeradwyo ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r ymgynghoriad ar y Mesur Cyfathrebu;
2. Yn nodi bod ymateb drafft Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn am newidiadau i'r Mesur drafft er mwyn sicrhau bod gan Gymru lais cryf yn y strwythur rheoliadol newydd;
3. Yn nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymgynghori'n eang wrth baratoi'r ymateb drafft hwn a bod y Pwyllgor Diwylliant wedi trafod a chymeradwyo'r papur yn ei gyfarfod ar 27 Mehefin.

### **Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

**(1)+(3) +(4)**

**(2)+(5)**

## **Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu 'yn cymeradwyo' ac yn ei le rhoi 'yn nodi'

## **Gwellint 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd Pwynt 2:

"gan gynnwys yr hawl cyfreithiol i Gynulliad Cenedlethol Cymru benodi cynrychiolwyr ar y Bwrdd Cynnwys ac ar Banel Defnyddwyr OFCOM"

## **Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ailrifo'r pwyntiau sy'n weddill yn unol â hynny:

Yn galw ar y Cyngor Cyfathrebu Cymru arfaethedig;

a. i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol; ac

b. i gyhoeddi canllawiau ar gyfer OFCOM a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â swyddogaethau OFCOM yng Nghymru.

## **Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ailrifo'r pwyntiau sy'n weddill yn unol â hynny:

Yn nodi y byddai ymateb drafft Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei atgyfnerthu drwy alw am:

a. adolygu cyllid S4C yng ngoleuni'r heriau sy'n ei wynebu yn yr oes ddigidol; a

b. eithrio is-deitlau Cymraeg i Saesneg ar S4C rhag deddfau hawlfraint.

## **Gwelliant 5 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi sefydlu presenoldeb sylweddol gan OFCOM yng Nghymru.

E-bostiwyd copi o ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r ymgynghoriad ar y Mesur Cyfathrebu at Aelodau ar 2 Gorffennaf 2002.

Gellir gweld y Mesur Cyfathrebu drafft drwy glicio isod: <http://www.communicationsbill.gov.uk/>

- Ar gael yn Saesneg yn unig.

Cliciwch [yma](#) i weld y Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r ymgynghoriad ar y Mesur Cyfathrebu at Aelodau

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

**\*\*\*\*\***

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 11 Gorffennaf 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**